**Memorandwm Esboniadol ar gyfer Rheoliadau Diogelu'r Amgylchedd (Cynhyrchion Plastig Untro) (Sancsiynau Sifil) (Cymru) 2023**

Mae'r Memorandwm Esboniadol hwn wedi cael ei baratoi gan Grŵp yr Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol, ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

**Datganiad y Gweinidog**

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Diogelu'r Amgylchedd (Cynhyrchion Plastig Untro) (Sancsiynau Sifil) (Cymru) 2023.

Rwy'n fodlon bod y manteision yn cyfiawnhau'r costau tebygol.

**Julie James AS**

Y Gweinidog Newid Hinsawdd

**7 Tachwedd 2023**

**RHAN 1**

## 1. Disgrifiad

1.1. Nod Deddf Diogelu'r Amgylchedd (Cynhyrchion Plastig Untro) (Cymru) 2023 (dsc 2) (“y Ddeddf”) yw mynd i'r afael â'r difrod a achosir gan ddefnyddio a chael gwared ar gynhyrchion plastig untro (‘CPU’) yng Nghymru. Bwriad y Ddeddf yw cyflymu'r broses o newid ymddygiad defnyddwyr er mwyn cefnu ar CPU a symud tuag at ragor o ailddefnyddio, a bydd yn annog busnesau yng Nghymru i arwain y ffordd wrth ddatblygu opsiynau amgen mwy cynaliadwy. Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod y bydd angen mynediad o hyd at rai CPU at ddibenion meddygol neu i alluogi pobl i fwyta ac yfed yn ddiogel. Felly mae'r Ddeddf yn cynnwys esemptiadau priodol i gefnogi pobl i fyw yn annibynnol, i gael eu cynnwys yn y gymuned ac i gyfranogi yn gyfartal.

1.2. Mae Rheoliadau Diogelu'r Amgylchedd (Cynhyrchion Plastig Untro) (Sancsiynau Sifil) (Cymru) 2023 ("y Rheoliadau") yn darparu y caiff awdurdod lleol, fel y rheoleiddiwr, osod sancsiynau sifil mewn perthynas â'r drosedd o dan adran 5 (Y drosedd o gyflenwi cynhyrchion plastig untro gwaharddedig) o'r Ddeddf.

## 2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad

2.1. Dim.

## 3. Y cefndir deddfwriaethol

<u>Y drosedd a gorfodi</u>

3.1. Mae adran 17 o'r Ddeddf yn galluogi rheoliadau sy'n darparu ar gyfer gwneud sancsiynau sifil mewn perthynas â throseddau a grëwyd o dan adran 5 o'r Ddeddf. Mae'r pŵer hwn yn cyfateb i'r hyn sydd yn Rhan 3 o Ddeddf Gorfodi Rheoleiddiol a Sancsiynau 2008 (p. 13) (“RESA”).

3.2. Mae Rhan 3 o RESA yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau i roi pwerau sancsiynau sifil amgen er mwyn gorfodi rhai troseddau. Y sancsiynau sifil sydd ar gael o dan RESA yw cosbau ariannol penodedig, gofynion disgresiynol (gan gynnwys cosbau ariannol amrywiadwy a hysbysiadau cydymffurfio), hysbysiadau stop ac ymgymeriadau gorfodi. Nid ydynt yn disodli euogfarnau troseddol; yn hytrach maent yn opsiwn amgen ar gyfer achosion o dorri'r gofynion rheoleiddiol nad ydynt yn ddifrifol.

3.3. Mae’r Rheoliadau hyn yn cael eu gwneud o dan adran 17(2) o’r Ddeddf.

3.4. Mae’r Rheoliadau hyn yn cael eu gwneud yn unol â'r weithdrefn gadarnhaol ddrafft, yn unol ag adran 21(3) o’r Ddeddf.

## 4. Diben y ddeddfwriaeth a’r effaith y bwriedir iddi ei chael

Y Cefndir

4.1. Mae'r Rheoliadau hyn yn darparu y caiff awdurdod lleol, fel y rheoleiddiwr, osod sancsiynau sifil mewn perthynas â'r drosedd o dan adran 5 o'r Ddeddf. Mae'r sancsiynau sifil yn gosbau ariannol penodedig, cosbau ariannol amrywiol, hysbysiadau cydymffurfio, hysbysiadau stop ac ymgymeriadau gorfodi. Mae'r Rheoliadau yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â'r weithdrefn ar gyfer defnyddio'r sancsiynau sifil hyn ac yn amlinellu mecanwaith apelio. Maent yn darparu bod rhaid paratoi ac ymgynghori ynghylch canllawiau mewn perthynas â defnyddio sancsiynau sifil, ac ar gyfer cyhoeddi gwybodaeth am y camau gorfodi a gymerwyd gan awdurodau lleol.

Diben rheoliadau – gorfodi a chyflwyno sancsiynau sifil

4.2. Un o ddibenion y Rheoliadau yw helpu awdurdodau lleol i sicrhau y cydymffurfir â'r Ddeddf ac atal niwed i'r amgylchedd. Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod llawer o fusnesau'n cydymffurfio â’r rheoliadau amgylcheddol presennol, a bod y mwyafrif yn gwneud pob ymdrech i wneud hynny. Rydym hefyd yn cydnabod bod llawer o awdurdodau lleol yn aml yn ceisio datrys unrhyw achosion o dorri'r gyfraith drwy drafod cydymffurfedd mewn modd adeiladol.

4.3. Bwriad darparu sancsiynau sifil yw rhoi offerynnau ychwanegol i awdurdodau lleol pan fydd trafodaethau o'r fath wedi methu, ond ystyrir bod sancsiynau troseddol yn anghymesur. Drwy ddarparu amrediad o sancsiynau sifil, bydd awdurdodau lleol yn gallu defnyddio dull graddol i annog busnesau i gydymffurfio â'u rhwymedigaethau o dan y Ddeddf.

4.4. Er y gellir gorfodi'r gwaharddiadau heb gyflwyno'r Rheoliadau hyn (am fod y Ddeddf yn darparu ar gyfer sancsiwn troseddol), mae hyn yn cyfyngu ar yr opsiynau gorfodi sydd ar gael i awdurdodau lleol. Bydd cynnig dull mwy hyblyg a chymesur yn sicrhau mecanweithiau mwy effeithiol i ymdrin â throseddau, gan helpu i ategu addysg a newid ymddygiad ymhlith busnesau. Mae hefyd yn lleihau'r angen am erlyniadau, pan nad ystyrir eu bod er budd y cyhoedd, gan helpu i ryddhau adnoddau hanfodol ar gyfer gorfodi.

Dulliau yn rhannau eraill y DU

4.5. Ym mis Hydref 2019 cyflwynodd Llywodraeth yr Alban Reoliadau Diogelu'r Amgylchedd (Ffyn Cotwm) (Yr Alban) 2019 i wahardd gweithgynhyrchu a gwerthu gwlân cotwm â ffyn plastig yn yr Alban.

4.6. Yn 2020 cyflwynodd Llywodraeth y DU Reoliadau Diogelu'r Amgylchedd (Gwellt, Ffyn Cotwm a Throellwyr Plastig (Lloegr) 2020 sy'n gwahardd pobl rhag cyflenwi neu gynnig i gyflenwi eitemau plastig penodol wrth weithredu busnes yn Lloegr.

4.7. Yn 2021 cyflwynodd Llywodraeth yr Alban Reoliadau Diogelu'r Amgylchedd (Cynhyrchion Plastig Untro) (yr Alban) sy'n gwahardd gweithgynhyrchu a chyflenwi cynhyrchion plastig untro penodol wrth weithredu busnes yn yr Alban.

4.8. Yn 2022 cynhaliodd Llywodraeth y DU ymgynghoriad ynghylch gwahardd nifer o CPU eraill. Cafodd yr ymgynghoriad ei gyhoeddi ar eu gwefan, ynghyd â chrynodeb o'r ymatebion. Mewn ymateb i'r ymgynghoriad, cyflwynodd Llywodraeth y DU ddeddfwriaeth sy'n gwahardd cyflenwi platiau, hambyrddau, powlenni, cytleri a ffyn balwnau plastig untro, yn ogystal â chynhwysyddion bwyd a diod wedi'u gwneud o bolystyren estynedig neu bolystyren allwthiedig, yn Lloegr o 1 Hydref 2023. Rheoliadau Diogelu'r Amgylchedd (Platiau Plastig etc. a Chynwysyddion Polystyren etc.) (Lloegr) 2023.

4.9. Bydd y gwaharddiadau'n cael eu gorfodi yn bennaf drwy sancsiynau sifil a amlinellir mewn rheoliadau gan ddefnyddio pwerau yn Rhan 3 o RESA. Mae hyn yn gyson â'r dull gorfodi a ddefnyddir yn Rheoliadau Diogelu'r Amgylchedd (Gwellt, Ffyn Cotwm a Throellwyr Plastig (Lloegr) 2020. Disgwylir i awdurdodau gorfodi ddefnyddio sancsiynau sifil yn y lle cyntaf; fodd bynnag, gall methu cydymffurfio â sancsiwn sifil, neu barhau i dorri'r rheoliadau, arwain at awdurdodau yn cyflwyno erlyniad troseddol.

## 5. Ymgynghori

5.1. Mae adran 17(4) o'r Ddeddf yn cymhwyso dyletswyddau i ymgynghori yn RESA i'r rheoliadau:

> *Section 60(1) and (2) of the 2008 Act (consultation) apply to regulations under subsection (1) as they apply to an order under Part 3 of that Act.*

5.2. Er mwyn nodi'r math o sancsiynau sifil sydd eu hangen i sicrhau y cydymffurfir â'n gwaharddiadau ar gynhyrchion plastig untro, gwnaethom ystyried y dulliau a ddefnyddir ar gyfer rheoliadau diogelu'r amgylchedd eraill yng Nghymru. Y prif rai oedd Rheoliadau Codi Tâl am Fagiau Siopa Untro (Cymru) 2010 ("Rheoliadau SUCB") a Rheoliadau

Diogelu'r Amgylchedd (Microbelenni) (Cymru) 2018 ("Rheoliadau Microbelenni").

5.3. Hefyd ystyriwyd y dull a gafodd ei fabwysiadu yn Lloegr mewn perthynas â Rheoliadau Diogelu'r Amgylchedd (Gwellt, Ffyn Cotwm a Throellwyr Plastig) (Lloegr) 2020.

*Rheoliadau Codi Tâl am Fagiau Siopa Untro (Cymru) 2010*

5.4. Mewn perthynas â Rheoliadau SUCB a'r sancsiynau sifil cysylltiedig, mae gan awdurdodau lleol yr hawl i naill ai roi cosb ariannol benodedig gyda gostyngiad am dalu'n gynnar a chosb am dalu'r hwyr; cosb ariannol amrywiadwy ac iddi derfyn uchaf gyda gostyngiad am dalu'n gynnar a chosb am dalu'n hwyr; neu hysbysiad cydymffurfio. Defnyddir y sancsiynau hyn i ymdrin ag achosion o dorri'r rheoliadau, pan fydd gwerthwr naill ai yn methu codi tâl am SUCB neu'n methu gwneud, cadw, darparu a chyhoeddi cofnodion.

5.5. Gellir rhoi cosb ariannol benodedig o £200 am fethu codi tâl, a chosb o £100 mewn perthynas â chadw cofnodion. O ran cosbau ariannol amrywiadwy, mae'r swm yn cael ei bennu gan y rheoleiddiwr; fodd bynnag, pennir uchafswm o £5,000 am fethu codi tâl neu fethu cadw cofnodion, ac £20,000 am roi gwybodaeth anwir neu am fethu cynorthwyo neu rwystro gweinyddwr rhag gwneud ei waith.

*Rheoliadau Diogelu'r Amgylchedd (Microbelenni) (Cymru) 2018*

5.6. Mae'r sancsiynau sifil sy'n cael eu defnyddio i orfodi'r Rheoliadau Microbelenni yn cynnwys cosbau ariannol amrywiadol, hysbysiadau stop ac ymgymeriadau gorfodi.

5.7. Y rheoleiddiwr sy'n pennu swm y gosb ariannol amrywiadwy. Fodd bynnag, y terfyn uchaf am beidio â chydymffurfio â'r gwaharddiad yw £5,000, gyda chosb uwch o £20,000 am ddarparu gwybodaeth anwir neu gamarweiniol, neu am rwystro swyddog gorfodi rhag gwneud ei waith.

*Rheoliadau Diogelu'r Amgylchedd (Gwellt, Ffyn Cotwm a Throellwyr Plastig (Lloegr) 2020*

5.8. Er bod diogelu'r amgylchedd yn fater datganoledig, roeddem hefyd yn ystyried y dulliau a ddefnyddir yn rhannau eraill y DU. Yn Lloegr, cyflwynwyd rheoliadau yn 2020 i wahardd personau rhag cyflenwi neu gynnig i gyflenwi eitemau plastig penodol wrth weithredu busnes. Er mwyn gorfodi'r rheoliadau hyn, cafodd dull tebyg ei fabwysiadau i'r dull a gafodd ei fabwysiadu o dan Reoliadau Microbelenni, sef cosbau

ariannol amrywiadwy, hysbysiadau cydymffurfio, hysbysiadau stop ac ymgymeriadau gorfodi.

Rheoliadau ailgylchu gwastraff arfaethedig

5.9. Ar hyn o bryd mae Llywodraeth Cymru yn datblygu rheoliadau a fydd yn eu gwneud yn ofynnol i fusnesau, y sector cyhoeddus a sefydliadau trydydd sector i ddidoli eu gwastraff yn barod i'w hailgylchu, fel y mae cartrefi eisoes yn gwneud. Gallwch weld yr ymgynghoriad yma ac mae rhagor o wybodaeth yma.

5.10. Roedd yr ymgynghoriad, (a ddaeth i ben ar 15 Chwefror 2023) yn cynnig y dylai Cyfoeth Naturiol Cymru orfodi'r holl ofynion ar wahân i'r gwaharddiad ar waredu gwastraff bwyd i garthffosydd, ac y dylai awdurdodau lleol orfodi'r gwaharddiad ar waredu gwastraff bwyd i garthffosydd o safle annomestig. Mae'r gyfundrefn orfodi arfaethedig yn cynnwys sancsiynau sifil.

5.11. Yn ogystal, mae gan Awdurdodau Lleol bwerau presennol, o dan adran 33ZB o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990, i gyflwyno hysbysiadau cosb benodedig y gellir eu defnyddio pan fydd ganddynt reswm dros gredu bod rhywun wedi cyflawni trosedd dyddodi gwastraff.

5.12. Bydd y rheoliadau gwastraff yn defnyddio cyfres o sancsiynau sifil i orfodi cydymffurfedd, fel y darperir ar eu cyfer yn RESA, yn debyg i'r rhai a ddefnyddir gan reoliadau diogelu'r amgylchedd presennol. Os yw unigolyn yn methu cydymffurfio â sancsiwn sifil, gellir cyflwyno achos troseddol yn erbyn y troseddwr.

5.13. Y sancsiynau sifil a gynigir ar gyfer y rheoliadau gwastraff yw cosbau ariannol penodedig, cosbau ariannol amrywiadwy a hysbysiadau stop. Lefel arfaethedig y cosbau ariannol penodedig yw £300 neu £500, yn dibynnu ar natur y drosedd.

5.14. Y rheoleiddiwr fydd yn pennu lefel y gosb ariannol amrywiadwy, gan adlewyrchu amgylchiadau'r drosedd. Cyhoeddir canllawiau ar ddefnyddio cosbau ariannol amrywiadwy. Byddant yn cynnwys gwybodaeth am amgylchiadau pan fydd cosb o'r fath yn debygol o gael ei rhoi, a'r materion sy'n debygol o gael eu hystyried gan y rheoleiddwyr wrth benderfynu ar swm y gosb. Cyn cyflwyno cosb ariannol amrywiadwy, gall y rheoleiddiwr ei gwneud yn ofynnol i'r troseddwr ddarparu gwybodaeth o'r fath fel sy'n rhesymol er mwyn pennu swm unrhyw fudd ariannol sy'n codi o ganlyniad i'r drosedd honno.

5.15. Yn ogystal â'r uchod, ystyriwyd adolygiad o sancsiynau sifil ar gyfer troseddau amgylcheddol a gynhaliwyd yn 2015. Dangosodd hwn fod defnyddio sancsiynau sifil yn atal diffyg cydymffurfio, yn darparu ffordd effeithiol a theg o orfodi, yn lleihau'r risg o niwed amgylcheddol ac atal

niwed rhag digwydd neu barhau i ddigwydd. Fodd bynnag, lleisiwyd rhai pryderon mewn perthynas â chymhlethdod y sancsiynau sifil a'r angen am ragor o hyfforddiant ar gyfer awdurdodau lleol.

**Darparu canllawiau ar gynhyrchion plastig untro a'r ymgyrch cyhoeddusrwydd**

5.16. Fel y nodwyd eisoes, ein bwriad yw i awdurdodau lleol a busnesau weithio gyda'i gilydd i ddatrys problemau'n wirfoddol pryd bynnag y bo modd, gan ymateb ag addysg ac arweiniad yn y lle cyntaf.

5.17. I helpu o ran cydymffurfio, bydd canllawiau'n cael eu darparu ar gyfer busnesau a'r rhai y mae'r gwaharddiadau'n effeithio arnynt. Disgwylir y bydd awdurdodau lleol yn ystyried y canllawiau hyn pan fyddant yn llunio eu polisi gorfodi eu hunain mewn perthynas â'r troseddau o dan adran 5 o'r Ddeddf. Bydd y polisi hwn wedyn yn cael ei rannu drwy ganllawiau gorfodi ar wahân (wedi'u datblygu yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru).

5.18. Bydd ymgyrch cyfathrebu'n cael ei chynnal hefyd cyn i'r gwaharddiadau ddod i rym, gyda'r negeseuon yn canolbwyntio yn bennaf ar fusnesau bach a chanolig.

Y dull ar gyfer sancsiynau sifil

5.19. Am fod yr ymgynghoriad yn canolbwyntio ar yr agweddau technegol a gweithredol ar ddefnyddio sancsiynau sifil, disgwylid y byddai'r ymgynghoriad o ddiddordeb i gynulleidfa arbenigol yn unig. O ganlyniad, hyd yr ymgynghoriad oedd wyth wythnos, yn hytrach na'r 12 wythnos arferol, i adlewyrchu natur benodol y pwnc.

5.20. Cynhaliwyd yr ymgynghoriad ynghylch y dull polisi arfaethedig ar gyfer y Rheoliadau rhwng 17 Ebrill a 9 Mehefin 2023. Wrth ddatblygu'r cynigion hyn cafodd y rheoliadau presennol a amlinellir uchod eu hystyried, (gan gynnwys y ffordd roedd y troseddau hynny'n cymharu â'r drosedd o dan adran 5 o'r Ddeddf) a sut roedd y gwahanol gyfundrefnau sancsiynau yn cael eu gweithredu. Ar sail yr ystyriaethau hyn, roedd yr ymgynghoriad yn cynnig gwneud y canlynol ar gael ar gyfer y troseddau o dan adran 5 o'r Ddeddf:

- Gofynion yn ôl disgresiwn – cosbau ariannol amrywiadwy neu hysbysiadau cydymffurfio
- Hysbysiadau stop
- Ymgymeriadau gorfodi

5.21. Gofynnwyd i ymatebwyr a oeddent yn credu bod y dull uchod yn gymesur, a oedd yn cytuno y dylid cynnwys CAP a beth oedd eu barn ar y mecanwaith arfaethedig ar gyfer apelio.

**Ymatebion i'r ymgynghoriad – Trosolwg**

5.22. Tynnwyd sylw rhanddeiliaid allweddol at yr ymgynghoriad, gan gynnwys grwpiau â nodweddion gwarchodedig, awdurdodau lleol, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC), manwerthwyr a'r sector bwyd a diod.

5.23. Derbyniwyd 31 o ymatebion i'r ymgynghoriad, ac mae'r crynodeb llawn o ymatebion ar gael yma.

5.24. Ymgynghorwyd â'r Ysgrifennydd Gwladol dros yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (ymgynghorai statudol) ar wahân.

5.25. Roedd cefnogaeth helaeth ar gyfer ein dull arfaethedig, gyda'r rhan fwyaf o ymatebwyr yn cytuno y dylid cynnwys hysbysiadau cydymffurfio (84%), cosbau ariannol amrywiadwy (81%), hysbysiadau stop (74%) ac ymgymeriadau gorfodi (74%).

5.26. Er bod y rhan fwyaf o ymatebwyr o blaid defnyddio cosbau ariannol amrywiadwy, roedd un awdurdod lleol yn erbyn eu defnyddio, gan ffafrio defnyddio cosbau ariannol penodedig (gyda'r swm yn cael ei osod ar lefel genedlaethol). Dadleuodd yr ymatebwr y byddai cosbau penodedig yn haws eu gweinyddu ac yn helpu i gyflawni dull mwy cyson ledled Cymru. Mynegwyd pryderon, pe gallai awdurdodau lleol unigol osod lefelau gwahanol o gosbau ledled Cymru, y gallai hyn arwain at nifer o heriau barnwrol.

5.27. Fodd bynnag, y consensws oedd bod cosbau ariannol amrywiadwy yn ddull mwy cymesur a hyblyg, gydag unrhyw anghysondebau'n derbyn sylw drwy ganllawiau atodol. O ganlyniad, roedd y rhan fwyaf o ymatebwyr yn erbyn defnyddio CAPau.

5.28. Fel rhan o'n hymgynghoriad â'r Ysgrifennydd Gwladol a'r trafodaethau dilynol â Llywodraeth y DU, nodwyd y cynigir newidiadau i'r math o gosb ariannol sydd ar gael i reoleiddwyr yn Lloegr. Roedd y rheoliadau blaenorol, Rheoliadau Diogelu'r Amgylchedd (Gwellt, Ffyn Cotwm a Throellwyr Plastig (Lloegr) 2020, yn cynnwys cosbau ariannol amrywiadwy, hysbysiadau cydymffurfio, hysbysiadau stop ac ymgymeriadau gorfodi. Fodd bynnag, byddai'r rheoliadau arfaethedig i wahardd platiau, powlenni, cytleri a ffyn balwnau plastig untro, ynghyd â chwpanau a chynwysyddion bwyd polystyren, yn cynnwys darpariaethau ar gyfer cosbau ariannol penodedig yn hytrach na chosbau ariannol amrywiadwy ar gyfer gorfodi.

5.29. Yn ogystal, roedd cynigion i ddiwygio Rheoliadau Diogelu'r Amgylchedd (Microbelenni) (Lloegr) 2017 (unwaith eto i ddarparu ar gyfer cosbau ariannol penodedig yn lle cosbau ariannol amrywiadwy)

5.30. Y sail resymegol ar gyfer y newidiadau hyn yw trafodaethau rhwng Llywodraeth y DU a Chymdeithas y Prif Swyddogion Safonau Masnach. Roedd swyddogion gorfodi yn ffafrio cosbau ariannol penodedig ar gyfer ymdrin â’r mathau hyn o droseddau amgylcheddol. Gwnaethant ddweud eu bod yn cael eu defnyddio yn llai trwm ar adnoddau.

5.31. Er bod cefnogaeth lethol dros ddefnyddio cosbau ariannol amrywiadwy yn ein hymgynghoriad, gwnaethom hefyd gydnabod y pryderon a leisiwyd gan rai ymatebwyr mewn perthynas â chosbau ariannol amrywiadwy. Rydym hefyd yn nodi manteision sicrhau bod y dull gorfodi yn gyson rhwng Cymru a Lloegr, o ystyried natur drawsffiniol busnesau. Fodd bynnag, rydym yn credu y dylai fod darpariaeth ar gyfer cosbau ariannol amrywiadwy a chosbau ariannol penodedig, yn hytrach na disodli un â'r llall. Mae hyn yn seiliedig, yn rhannol, ar y dulliau gwahanol a ddefnyddir yng Nghymru, o'i chymharu â Lloegr, yn bennaf y ffaith bod ein deddfwriaeth yn cynnwys amrediad ehangach o gynhyrchion (gyda'r gallu i ychwanegu mwy).

5.32. Rydym yn credu y bydd darparu cosbau ariannol amrywiadwy a chosbau ariannol penodedig yn galluogi awdurodau lleol i ddewis y sancsiwn mwyaf priodol, yn dibynnu ar ddifrifoldeb y drosedd/maint y busnes.

5.33. O ran peidio â gosod terfyn uchaf ar gyfer cosbau ariannol amrywiadwy, roedd cefnogaeth helaeth ar gyfer y dull hwn. O'r 23% a oedd yn anghytuno, roedd rhai o'r ymatebwyr hynny'n awgrymu graddfa o gosbau'n dibynnu ar faint y busnes, ac rydym yn credu mai dyma'r ffordd y bydd awdurdodau lleol yn gorfodi'r sancsiwn hwn. I sicrhau cysondeb, yn absenoldeb terfyn uchaf ar y ddirwy am euogfarn droseddol, mabwysiadir dull tebyg mewn perthynas â chosbau ariannol amrywiadwy.

5.34. Nid oedd yr un ymatebwr yn erbyn ein mecanwaith arfaethedig ar gyfer apeliadau, gan ddefnyddio'r Tribiwnlys Haen Gyntaf.

5.35. Roedd y rhan fwyaf o ymatebwyr (61%) yn cytuno bod ein dull cyffredinol arfaethedig yn rhesymol ac yn gymesur.

5.36. Ni nodwyd unrhyw effeithiau negyddol ar y Gymraeg.

5.37. Roedd yr ymgynghoriad yn gofyn am ragor o dystiolaeth i helpu i gefnogi'r gwaith o ddatblygu'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol. Ni dderbyniwyd unrhyw wybodaeth sylweddol ychwanegol.

Ar ôl ymgynghori

5.38. Mae'r ymgynghoriad a'r crynodeb o'r ymatebion ar gael ar dudalen we ymgyngoriadau Llywodraeth Cymru.

5.39. Ar ôl ystyried a dadansoddi'r holl ymatebion, diwygiwyd ein cynigion fel eu bod yn cynnwys defnyddio cosbau ariannol penodedig. O ystyried y newid arfaethedig hwnnw i'r polisi, cynhaliwyd ymgynghoriad ychwanegol rhwng 21 Awst a 4 Hydref er mwyn ceisio rhagor o safbwyntiau ynglŷn â chynnwys cosbau ariannol penodedig ac ynglŷn â'r swm y dylid ei bennu ar eu cyfer. Manylir isod ar y ymgynghoriad ychwanegol hwnnw.

5.40. Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi gweithio gyda busnesau, gweithgynhyrchwyr, grwpiau sector cyhoeddus, cymunedau a grwpiau o bobl â nodweddion gwarchodedig i ddatblygu canllawiau cynhwysfawr i ategu'r gwaith o gyflwyno a gorfodi'r Ddeddf. Mae hyn wedi cynnwys deunyddiau cyfathrebu i helpu i godi ymwybyddiaeth o'r cynhyrchion gwaharddedig a sut i gael opsiynau amgen.

Ymgynghoriad ychwanegol ar gynigion i wneud rheoliadau sancsiynau sifil o dan Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd (Cynhyrchion Plastig Untro) (Cymru) 2023 – Cosbau Ariannol Penodedig

5.41. Ar ôl ein hymgynghoriad cychwynnol ar 'Gorfodi gwaharddiadau a chyfyngiadau ar rai cynhyrchion plastig untro' (gweler uchod), gwnaethom ofyn am ragor o safbwyntiau ar gynnig newydd a ddaeth i'r amlwg o'r ymatebion i'r ymgynghoriad hwnnw. Y cynnig hwn oedd cynnwys cosbau ariannol penodedig yn y gyfres o sancsiynau sifil sydd ar gael i'r awdurdodau lleol i orfodi'r drosedd o dan adran 5 o'r Ddeddf.

5.42 Gan fod yr ymgynghoriad yn ceisio barn am y pwnc mwy cyfyng hwn, cynhaliwyd ymgynghoriad penodol rhwng 21 Awst a 4 Hydref. Roedd yr ymgynghoriad yn ceisio barn ynghylch a oedd pobl yn cytuno â chynnwys cosbau ariannol penodedig ac os felly, a oeddent yn cytuno y dylid pennu swm o £200.

5.43. Daeth cyfanswm o 37 o ymatebion i law. O ran ein cwestiwn ynghylch a ddylid cynnwys cosbau ariannol penodedig ai peidio, roedd 73% o'r ymatebwyr yn cytuno. Nid oedd cyfran fawr o'r rheini a oedd o blaid hynny yn cynnig unrhyw resymau penodol, yn aml, dim ond yn mynegi'r farn eu bod yn teimlo y byddai cosbau ariannol penodedig yn helpu drwy fod yn arf ataliol. Roedd sawl ymatebydd o blaid eu defnyddio oherwydd eu bod yn ystyried bod cosbau ariannol penodedig yn "ddull syml ac

effeithlon" o fynd i'r afael â throseddau, yn enwedig pan fo'r cosbau hynny'n rhan o strategaeth orfodi ehangach. O ran y rheini a oedd yn anghytuno y dylid eu cynnwys (24%), roedd y rhan fwyaf ohonynt yn anghytuno ar y sail eu bod yn gwrthwynebu defnyddio unrhyw gamau gorfodi neu'n credu bod defnyddio cosbau ariannol yn gyfystyr â threth. Roedd eraill yn teimlo bod cyfreithiau o'r fath yn ymyrraeth ddiangen gan y llywodraeth neu y dylid ceisio cydymffurfiaeth drwy ffyrdd eraill (er enghraifft drwy addysg).

5.44. O ran a oedd pobl yn cytuno ar y swm o £200 a bennwyd ar gyfer y gosb ariannol bendodedig, roedd y safbwyntiau'n amrywio. O'r 49% a oedd yn gwrthwynebu, roedd 14% yn gwrthwynebu unrhyw gosb ariannol ac roedd 8% arall yn teimlo bod y swm yn rhy uchel, ond ni wnaethant gynnig ffigur arall. Roedd dau ymateb oddi wrth y diwydiant gwastraff yn awgrymu y dylid pennu swm o £300 er mwyn sicrhau bod y swm yn gyffelyb i'r swm a bennir mewn rheoliadau eraill sy'n cael eu datblygu gan Lywodraeth Cymru ar ailgylchu gan fusnesau.

5.45. Roedd yr ymatebwyr hynny a oedd o blaid y cynnig o £200 yn gwneud hynny yn aml ar y sail eu bod yn teimlo bod y swm hwn yn lefel resymol a chymesur ar gyfer y drosedd.

Ar ôl yr ymgynghoriad

5.46. Ar ôl ystyried a dadansoddi'r holl ymatebion, aethom ati i gynnwys cosbau ariannol penodedig yn ein rheoliadau ac, o ystyried y diffyg consensws ymhlith y rheini a oedd yn gwrthwynebu hynny, gwnaethom bennu swm o £200.

5.47. Mae'r ymgynghoriad a'r crynodeb o'r ymatebion ar gael ar dudalen ymgynghoriadau Llywodraeth Cymru ar y we.

## RHAN 2 – YR ASESIAD EFFAITH RHEOLEIDDIOL

### 6. Yr Opsiynau

6.1 Mae dau opsiwn wedi cael eu hystyried yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn: bwrw ymlaen â'r gwaharddiadau gan ddefnyddio sancsiynau troseddol yn unig (cadw'r statws quo/gwneud dim) neu gyflwyno cyfundrefn orfodi arall sy'n defnyddio sancsiynau sifil (**yr opsiwn a ffefrir**). Er y bydd awdurdodau lleol yn aml yn siarad â busnesau i'w haddysgu a chodi eu hymwybyddiaeth i'w helpu i gydymffurfio, nid ystyrir bod y dull gorfodi hwn yn hyfyw yn y tymor hir ar ei ben ei hun, ac felly nid yw wedi cael ei gynnwys fel opsiwn ar wahân yn yr asesiad hwn.

### Opsiwn 1: Dibynnu ar sancsiynau troseddol yn unig (y statws quo/gwneud dim)

6.2 Dyma'r opsiwn llinell sylfaen, ac felly nid oes unrhyw gostau ychwanegol yn gysylltiedig â'r opsiwn hwn, y tu hwnt i'r rhai wedi'u cynnwys yn y Memorandwm Esboniadol ar gyfer y Ddeddf.

6.3 Mae'r Ddeddf yn darparu ar gyfer sancsiwn troseddol (adran 6) sy'n golygu y gallai unigolyn yr amheuir ei fod wedi cyflawni trosedd o dan adran 5 o'r Ddeddf fod yn destun treial yn Llys yr Ynadon. Os ceir unigolyn yn euog o'r drosedd, caiff y llys roi dirwy ddiderfyn.

6.4 Er ei bod yn bosibl y bydd angen sancsiynau troseddol pan ystyrir bod achos o dorri'r gwaharddiad yn fwriadol neu ar raddfa fawr, gall fod achosion pan fydd angen dull mwy cymesur – er enghraifft, wrth ymdrin â throsedd gyntaf gan fusnes bach. Mewn achosion o'r fath, efallai na fydd cofnod troseddol posibl ar gyfer perchennog y busnes yn briodol, yn enwedig os yw'r toriad yn fach ac yn anfwriadol. Mae'n bosibl hefyd y bydd y ddau fath hyn o erlyniad yn rhoi baich ychwanegol ar awdurdodau lleol a system y llysoedd.

6.5 Ni fyddai cadw'r status quo – sef sancsiynau troseddol fyddai'r unig opsiwn gorfodi – yn galluogi'r dull mwy hyblyg hwn ar gyfer gorfodi cydymffurfedd. Byddai hyn hefyd yn arwain at doriadau bach yn cael eu herlyn, gan roi baich posibl ar awdurdodau lleol a system y llysoedd.

### Opsiwn 2: Cyflwyno sancsiynau sifil drwy Reoliadau (y dull a ffefrir)

6.6 Bydd rheoliadau sy'n ychwanegu sancsiynau sifil at y gyfres o offerynnau gorfodi sydd ar gael i awdurdodau lleol yn cynyddu eu hopsiynau ac atal rhoi cofnod troseddol i ddinasyddion yn ddiangen.

6.7 Mae'r amrediad o sancsiynau sifil a gynigir yn rhoi'r cyfle i Swyddogion Safonau Masnach (a swyddogion cyfatebol) i ddefnyddio dull amrywiol

ar gyfer gorfodi, gan deilwra eu hymateb yn ôl difrifoldeb y drosedd. Mae'n debygol y bydd defnyddio unrhyw rai o'r sancsiynau wedi'u cynnwys yn ein cynigion yn cael rhai effeithiau uniongyrchol. Bydd effaith ychwanegol defnyddio'r sancsiynau mewn unrhyw achos unigol yn dibynnu ar y dull a fyddai wedi cael ei ddefnyddio fel arall. Mae'n bosibl y bydd y costau, er enghraifft, yn uwch neu'n is yn dibynnu ar y mecanwaith a fyddai wedi cael ei ddefnyddio fel arall. Mae'n glir hefyd fod effaith gyffredinol cyflwyno'r sancsiynau hyn yn dibynnu ar ba mor aml maent yn cael eu defnyddio ac a ydynt yn cael eu defnyddio'n briodol.

## 7. Costau a manteision

7.1 Yn rhan o'n proses datblygu polisïau mae'n ofynnol inni asesu costau cyflwyno'r Rheoliadau hyn ar fusnesau ac awdurdodau lleol (sef y rhai fydd yn rheoleiddio'r gwaharddiadau). Cynhaliwyd Asesiad Effaith Rheoleiddiol llawn a oedd yn ystyried effeithiau cyflwyno gwaharddiad yng Nghymru. Nid oedd ein hymgynghoriad ynghylch sancsiynau sifil yn gallu nodi unrhyw wybodaeth arall a fyddai'n newid neu'n ychwanegu'n sylweddol at y cyfrifiadau gwreiddiol hyn. Felly, mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn yn defnyddio'r tybiaethau cychwynnol hynny, ac mae wedi cael ei ddiweddaru, lle y bo modd, i adlewyrchu unrhyw gostau neu fanteision cyflwyno sancsiynau sifil.

7.2 Dylid nodi bod effeithiau'r gwaharddiadau yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn aml yn cael eu trafod mewn termau nad ydynt yn ariannol ac nad oes modd eu mesur oherwydd cyfyngiadau'r data sydd ar gael.

### Llywodraeth Cymru – Costau a manteision gweinyddol

7.3 Ni fydd cyflwyno'r Rheoliadau hyn yn arwain at unrhyw gostau ychwanegol i Llywodraeth Cymru. Bydd canllawiau i ategu'r gwaith o orfodi sancsiynau sifil yn cael eu datblygu gan awdurdodau lleol, ac ni fydd unrhyw ymgyrch gyfathrebu benodol yn cael ei datblygu mewn perthynas â defnyddio'r sancsiynau sifil. Awdurdodau lleol hefyd a fydd yn gyfrifol am fonitro gwaith gorfodi a gwneud penderfyniadau ynghylch gweithredu.

7.4 Er bod y mecanwaith ar gyfer sancsiynau sifil ac apeliadau'n adlewyrchu'n fras y mecanwaith a ddefnyddir yn Lloegr, nid ydym wedi nodi unrhyw gostau ychwanegol sy'n gysylltiedig â'r system gyfiawnder a fydd yn cael eu hysgwyddo gan Lywodraeth Cymru. Nid yw deddfwriaeth amgylcheddol debyg yn y gorffennol (codi tâl am fagiau siopa a gwahardd microbelenni) wedi arwain at unrhyw achosion yn cael eu cyflwyno yn y llysoedd. Er na ellir cymharu'r deddfwriaeth hon yn uniongyrchol, mae wedi dangos, drwy ddigon y godi ymwybyddiaeth,

arweiniad a darparu cymorth i werthwyr, y gellir sicrhau lefel uchel o gydymffurfio.

7.5 Cafodd y costau ehangach sy'n gysylltiedig â gwella cydymffurfedd eu hamlinellu yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer y Ddeddf. Amcangyfrifodd yr asesiad hwn gost gychwynnol am weithredu'r Ddeddf o £500,000 i Lywodraeth Cymru, gan gynnwys datblygu'r canllawiau dwyieithog, rhedeg yr ymgyrch gyfathrebu i gefnogi'r broses o gyflwyno'r ddeddfwriaeth a chostau staff sy'n gysylltiedig â gweithredu'r Ddeddf.

7.6 Gan fod y Rheoliadau hyn yn ymwneud â gorfodi'r gwaharddiadau eu hunain, yn hytrach na rheoli'r gwaith o oruchwylio'r polisi, ni fydd unrhyw gostau ychwanegol ac ni wneir unrhyw arbedion.

**<u>Awdurdodau lleol – Costau a manteision</u>**

7.7 Bydd y cynnig hwn yn cyflwyno sancsiynau sifil a fydd yn rhoi offerynnau gorfodi amgen i swyddogion awdurdodedig awdurdodau lleol i fynd i'r afael â diffyg cydymffurfedd. Nid yw'r cynnig yn rhoi unrhyw rwymedigaeth ar awdurdodau lleol i arfer y pwerau hyn nac i erlyn am y drosedd wreiddiol.

7.8 Fodd bynnag, disgwylir, os yw awdurdodau lleol yn penderfynu defnyddio sancsiynau sifil, y byddant yn ysgwyddo rhai costau cychwynnol bach am hyfforddi staff a datblygu math addas o hysbysiad gorfodi. Mae'n debyg hefyd y bydd costau sy'n gysylltiedig â diffyg cydymffurfio.

<u>Costau hyfforddi</u>

7.9 Bydd angen i awdurdodau lleol ddatblygu canllawiau ar orfodi ar gyfer eu swyddogion awdurdodedig, darparu hyfforddiant staff a datblygu mathau addas o hysbysiad gorfodi.

7.10 Rydym yn cymryd y bydd pob un o'r 22 awdurdod lleol yn ysgwyddo cost weinyddol untro wrth ymgyfarwyddo â'r pwerau newydd. Yn 2022 cynhaliodd Cymdeithas y Prif Swyddogion Safonau Masnach ymchwil i nodi'r gyfradd ar gyfer adennill costau llawn swyddogion o fewn Safonau Masnach. Nid oedd yn gyfradd cyflog, ond roedd yn cynnwys argostau sy'n gysylltiedig â chyflogaeth a chostau nad ydynt yn gysylltiedig â chyflogaeth. Roedd y ffigur ar gyfer Cymru ychydig yn is nac ar gyfer Lloegr, sef £70.85 yr awr.

7.11 Gan ddefnyddio amcangyfrif canolog o 90 munud fesul awdurdod lleol, gallai'r newidiadau arfaethedig olygu cost ymgyfarwyddo untro o £106 fesul swyddog fesul awdurdod lleol.

Costau diffyg cydymffurfio

7.12 Mae Adran Safonau Masnach (neu adran gyfatebol) awdurdodau lleol eisoes yn gyfrifol am orfodi dros 100 darn o ddeddfwriaeth sylfaenol a llawer mwy o reoliadau a gorchmynion. Mae'n bosibl y bydd costau cyfreithiol ychwanegol i awdurdodau lleol pan fydd achosion o ddiffyg cydymffurfio.

7.13 Yn aml mae awdurdodau lleol yn ymateb i wybodaeth oddi wrth asiantaethau eraill, busnesau neu gwynion gan y cyhoedd – hynny yw, mae eu gweithgareddau'n aml yn gysylltiedig yn uniongyrchol â chwynion a wnaed a gwybodaeth a dderbyniwyd. Pan fydd achos o ddiffyg cydymffurfio wedi cael ei nodi, byddem yn disgwyl i'r masnachwr hwnnw dderbyn cyngor er mwyn sicrhau ei fod yn cydymffurfio. Fel y nodwyd eisoes, dim ond pan fydd cyngor a gwybodaeth yn cael eu hanwybyddu, neu pan fydd gamgymeriadau parhaus yn cael eu gwneud, y byddem yn disgwyl gweld camau gorfodi'n cael eu defnyddio. Fodd bynnag, bydd costau'n gysylltiedig ag archwilio safle a rhoi cyngor.

7.14 Mewn ymateb i'n hymgynghoriad, darparodd Casnewydd gyfrifiad bras o ddiffyg cydymffurfio posibl yn eu hardal.

> *"Mae gan Gasnewydd oddeutu 3,000 o fusnesau y gwyddys amdanynt. Amcangyfrifir y byddai'r Bil yn berthnasol i 60% o'r busnesau hynny – felly mae'n bosibl y byddai'r Bil yn berthnasol i 1,800 o fusnesau. Fel rheol, wrth ddefnyddio model cydymffurfio 80/20, amcangyfrifir y byddai angen rhyw fath o ymyrryd ychwanegol ar tua 360 o fusnesau. Gan gymhwyso'r model cydymffurfio 80/20 ymhellach, amcangyfrifir y gallai fod angen camau gorfodi, sef cosb sifil, ar tua 72 o fusnesau".*

7.15 Mae enghreifftiau eraill o gyfraddau diffyg cydymffurfio, yn enwedig yn ystod camau cynnar y rheoliadau newydd, yn cynnwys codi tâl am fagiau siopa untro. Cafodd ei gyflwyno ym mis Hydref 2011, ac erbyn mis Chwefror 2013 cofnodwyd bod 25 cwyn wedi cael eu derbyn gan ddefnyddwyr. Ymchwiliwyd i'r rhain a phenderfynwyd bod sail i naw o'r rhain. Derbyniwyd pedair cwyn gan fusnesau am fusnesau eraill, ac roedd sail i ddwy o'r rhain. Mae 141 cais am gyngor wedi cael eu derbyn gan fusnesau mewn perthynas â'u rhwymedigaethau. Mae 11 cais am gyngor wedi cael eu derbyn gan ddefnyddwyr mewn perthynas â'r rheoliadau. Y nifer o gysylltiadau â busnesau at ddibenion gorfodi oedd 127. Mae hyn yn cynnwys archwiliadau rhagweithiol, pryniadau prawf, ymweliadau adweithiol o ganlyniad i gwynion a dderbyniwyd neu lythyrau cyngor a anfonwyd.

7.16 Er bod yr amcangyfrifon hyn yn awgrymu y bydd costau posibl i awdurdodau lleol wrth sicrhau cydymffurfedd, mae angen ystyried ffactorau eraill hefyd. Mae hyn yn cynnwys gweithredu gwirfoddol gan y sector manwerthu a'r sector arlwyo; er enghraifft Ymrwymiad ar

Blastig WRAP i ddileu cynhyrchion gwaharddedig o'u cadwyn gyflenwi. Yn ogystal, gyda gwaharddiadau eisoes yn cael eu gweithredu ledled yr Undeb Ewropeaidd, yr Alban a Lloegr), bydd y cyflenwad o'r cynhyrchion hyn yn dod i ben, wrth i eitemau nad ydynt yn cydymffurfio beidio â chael eu cynhyrchu.

7.17 Gan na fydd angen i awdurdodau lleol chwilio am ddiffyg cydymffurfio yn rhagweithiol, a'i bod yn bosibl y byddant yn cyfuno ymchwiliadau â gweithgareddau gorfodi eraill, mae'n anodd nodi costau'n fanwl. Yn seiliedig ar dystiolaeth a gasglwyd ar gyfer y rheoliadau ailgylchu, amcangyfrifwyd y gallai archwiliad gan awdurdodau lleol gymryd tua thair awr ar gost o tua £70.85 fesul awr (gydag argostau). Ar ben uchaf y raddfa (fel yr awgrymwyd gan Gyngor Casnewydd, gyda'r angen i gymryd camau gorfodi mewn perthynas ag amcangyfrif o 72 o fusnesau), byddai hyn yn arwain at gost o £15,303 fesul awdurdod lleol (rydym wedi cymryd yn ganiataol y bydd hyn yn digwydd yn ystod y flwyddyn gyntaf ar ôl i'r gwaharddiadau ddod i rym, gan y bydd busnesau'n addasu ac yn cydymffurfio â'r gyfraith). Ar ben isaf y raddfa (yn seiliedig ar y dystiolaeth ynghylch bagiau siopa sy'n awgrymu y bydd angen camau gorfodi ar gyfer cyfartaledd o chwe busnes), byddai hyn yn arwain at gost o £1,275 fesul awdurdod lleol.

Manteision i awdurdodau lleol

7.18 Bydd cyfundrefn effeithiol ac effeithlon yn helpu i wella cydymffurfedd, a fydd yn eu tro yn lleihau costau i awdurdodau lleol sy'n gysylltiedig â chlirio sbwriel. Mae hefyd manteision anuniongyrchol ehangach i ddarpariaeth gwasanaethau awdurdodau lleol, gwasanaethau cymdeithasol er enghraifft, o ganlyniad i wella ansawdd yr amgylchedd lleol.

7.19 Yn 2017, amcangyfrifodd Papur gan Senedd y Deyrnas Unedig fod costau clirio yn £70 miliwn y flwyddyn ar gyfer yr holl sbwriel yng Nghymru. Mae Stats Cymru yn nodi cost net o £53 miliwn, sy'n cynnwys ysgubo a symud sbwriel o dir, biniau sbwriel ac ati. Fodd bynnag, nid yw hyn yn cynnwys priffyrdd, y cefn gwlad, ysgolion a gwasanaethau eraill, felly ystyrir bod yr amcangyfrif o £70 miliwn yn cynrychioli cyfanswm y gost am glirio'r sbwriel yn well. Mae cyfran o'r gost o glirio sbwriel yn cael ei phriodoli i'r cynhyrchion gwaharddedig, yn seiliedig ar arolygon o sbwriel tir. Fodd bynnag, mae'n annhebyg y bydd unrhyw ostyngiad bach i lefel y sbwriel yn arwain at arbedion cost, gan ei bod yn debygol y bydd angen yr un adnoddau i gynnal amlder y gweithgareddau clirio sbwriel

7.20 Mae'n anodd mesur manteision amgylcheddol ehangach y gwaharddiadau a'r manteision i awdurdodau lleol. Pan oedd y Ddeddf yn cael ei datblygu, canfu ymchwil fod byw a gweithio mewn amgylchedd â llai o sbwriel yn cyfrannu at wella iechyd meddyliol a chorfforol. Roedd hynny yn ei dro yn arwain at ragor o gyfranogi a

gwerthfawrogi'r amgylchedd lleol, er enghraifft drwy ymarfer corff a gwirfoddoli yn y gymuned. Fodd bynnag, mae'n anodd mesur y fantais hon ac nid oedd ein hymchwil yn gallu amcangyfrif gwerth ariannol ar gyfer hyn.

## **Busnes – Costau a manteision**

### Costau cydymffurfio i fusnesau

7.21 Disgwylir i'r rhan fwyaf o fusnesau gydymffurfio â darpariaethau'r Ddeddf ac, felly, ni fyddant yn ysgwyddo unrhyw gostau ychwanegol o ganlyniad i'r Rheoliadau hyn. I helpu busnesau i gydymffurfio, mae Llywodraeth Cymru wedi datblygu canllawiau a deunyddiau cyfathrebu i sicrhau bod perchnogion busnes yn deall gofynion y Ddeddf.

7.22 Gall busnesau y canfyddir eu bod wedi bod yn cyflenwi cynhyrchion plastig untro a waherddir o dan y Ddeddf ddisgwyl i dimau gorfodi'r awdurdod lleol gymryd camau ymyrryd. Yn y lle cyntaf, mae'n debygol y bydd hyn ar ffurf addysg / codi ymwybyddiaeth. Fodd bynnag, mae'r Rheoliadau hyn yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru i osod sancsiynau sifil yn achosion difrifol o ddiffyg cydymffurfio neu achosion parhaus o ddiffyg cydymffurfio. Pan fydd sancsiwn sifil yn cael ei osod, y busnes a fydd yn talu cost y sancsiwn ei hun a / neu unrhyw gostau sy'n gysylltiedig ag apelio yn erbyn y sancsiwn. Ni wyddys nifer y busnesau a fydd yn derbyn sancsiwn, maint y sancsiynau hynny a'r tebygolrwydd o apelio ar hyn o bryd, felly nid oes modd mesur costau cyfunol.

7.23 Fel y nodwyd eisoes, cafodd cost gyffredinol cydymffurfio â'r gwaharddiadau i fusnes eu trafod yn y Memorandwm Esboniadol ar gyfer y Ddeddf. Roedd hyn yn edrych ar amrediad eang o gostau sy'n gysylltiedig â’r gwaharddiadau gan gynnwys amcangyfrif y costau i fusnesau gwasanaethau bwyd am newid o gynhyrchion plastig i gynhyrchion di-blastig, hyfforddiant staff a sicrhau eu bod yn cydymffurfio. Amcangyfrifwyd y byddai hyn yn costio £300k. Roedd y Memorandwm Esboniadol ar gyfer y Ddeddf hefyd yn rhoi crynodeb o'r tueddiadau ymhlith cynhyrchwyr a defnyddwyr y disgwylir iddynt gefnogi'r broses o gefnu ar gynhyrchion plastig untro.

7.24 Mae tystiolaeth bresennol yn awgrymu, er bod busnesau mawr a masnachfreintiau wedi llwyddo i gefnu ar gynhyrchion plastig untro, mae'n bosibl y bydd yr effaith ar fusnesau llai yn drymach. Nodwyd bod y mathau hyn o fusnes yn aml yn gweithredu mewn marchnad gystadleuol iawn, ac maent yn sensitif iawn i brisiau; felly mae'n debyg y bydd unrhyw gostau am gydymffurfio yn anghymesur o uwch. Ar hyn o bryd ni wyddys nifer y busnesau a fydd yn derbyn cosb, maint y cosbau hynny a'r tebygolrwydd o apelio, felly, nid oes modd mesur costau cyfunol.

7.25 Rydym yn credu bod y dull rydym wedi'i fabwysiadu'n darparu sancsiynau hyblyg a chymesur ar gyfer awdurdodau lleol; er enghraifft, y gallu i gyflwyno hysbysiadau cydymffurfio. Os yw awdurdod lleol yn cyflwyno hysbysiad cydymffurfio, bydd hyn yn rhoi cyfle i fusnesau bach, ynghyd â'r arweiniad sydd ei angen, i unioni unrhyw ddiffyg cydymffurfio. Rydym yn credu y dylai camau gorfodi, pan fydd hynny'n briodol, geisio cefnogi busnesau i unioni unrhyw ddiffyg cydymffurfio anfwriadol cyn cymryd unrhyw gamau pellach

7.26 Yn yr un modd, bydd darparu cosbau ariannol amrywiadwy yn galluogi awdurdodau lleol i ystyried y busnes a difrifoldeb y diffyg cydymffurfio wrth ymdrin ag achos o dorri'r gyfraith.

Manteision cydymffurfio i fusnes

7.27 Mae'n debygol y bydd gallu awdurdodau lleol i ddefnyddio amrediad o ddulliau gorfodi o fudd i'r busnesau sy'n debygol o gydymffurfio â rheoliadau. Bydd hyn yn helpu i sicrhau sefyllfa fwy teg, gan y bydd hefyd angen i'r cwmnïau hynny ag agwedd lai dymunol tuag at gydymffurfio wario i ddisodli'r cynhyrchion plastig untro sydd eisoes ganddynt.

**Crynodeb o’r opsiwn a ffefrir**

7.28 Yr opsiwn a ffefrir yw **Opsiwn 2**. Gellir ystyried erlyniad troseddol, o dan rai amgylchiadau, yn anghymesur â’r drosedd, a byddai'n well defnyddio'r arian a'r adnoddau mewn mannau eraill. Drwy ddarparu mecanwaith amgen, sef sancsiynau sifil, mae Llywodraeth Cymru wedi darparu opsiwn mwy hyblyg i awdurdodau lleol ar gyfer cymryd camau gorfodi.

7.29 Gan y bydd eisoes angen i awdurdodau lleol a busnesau ymgyfarwyddo â'r gwaharddiadau, nid ydym wedi nodi costau ychwanegol sylweddol ar ben y rhai a gyfrifwyd yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol cychwynnol.

## Profion effaith penodol

### Yr Iaith Gymraeg

7.30 Ni nodwyd unrhyw effeithiau cadarnhaol na niweidiol ar y Gymraeg yn ystod y broses ymgynghori. Bydd yr holl ganllawiau a'r dogfennau ategol sy'n gysylltiedig â'r sancsiynau sifil ar gael yn ddwyieithog. Bydd unrhyw ohebiaeth ag awdurdodau lleol a busnesau'n ystyried anghenion iaith ac yn cael ei darparu'n ddwyieithog ar gais. Bydd y pwerau'n cael eu gweithredu gan awdurdodau lleol unigol, a bydd

darpariaethau ar waith i sicrhau bod y gwaith papur angenrheidiol ar gael yn ddwyieithog.

**Hawliau Plant**

7.31 Cafodd Asesiad Effaith penodol ei gynnal ar gyfer y Ddeddf, a'i ddiweddaru i adlewyrchu cyflwyno pwerau gorfodi newydd. Ni nodwyd gwrthdaro â Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn ac ni fydd unrhyw effeithiau negyddol ar blant na phobl ifanc. Yn anuniongyrchol, yr effeithiau cadarnhaol ar blant fyddai manteision tebyg i iechyd a lles, drwy unrhyw welliannau i'r amgylchedd lleol, o ganlyniad i lai o gynhyrchion plastig untro yn ychwanegu at sbwriel.

**Preifatrwydd**

7.32 Nid yw Llywodraeth Cymru wedi cadw unrhyw ddata personol fel rhan o'r broses hon. Bydd gan awdurdodau lleol sy'n defnyddio ac yn cyflwyno sancsiynau sifil eu prosesau eu hunain ar waith at ddibenion diogelu data.

**Asesiad Effaith Cyfiawnder**

7.33 Mae Asesiad Effaith Cyfiawnder wedi cael ei gynnal fel rhan o'r broses datblygu deddfwriaethol, ac ni nodwyd unrhyw effeithiau sylweddol ar Lysoedd a Thribiwnlysoedd EF. Mae'r broses ar gyfer gweithredu a gorfodi'r pwerau hyn yn debyg i'r prosesau yn Lloegr.

7.34 Bwriedir i'r pwerau hyn gynnig offeryn gorfodi amgen i swyddogion gorfodi, yn hytrach nac erlyniad troseddol.

## 8. Asesu’r gystadleuaeth

| Prawf hidlo’r gystadleuaeth | |
|---|---|
| **Cwestiwn** | **Ateb** |
| **C1**: Yn y farchnad yr effeithir arni gan y rheoliadau newydd, a oes gan unrhyw gwmni fwy na 10% o gyfran o’r farchnad? | Nac oes |
| **C2**: Yn y farchnad yr effeithir arni gan y rheoliadau newydd, a oes gan unrhyw gwmni fwy nag 20% o gyfran o’r farchnad? | Nac oes |
| **C3**: Yn y farchnad yr effeithir arni gan y rheoliadau newydd, a oes gan y tri chwmni mwyaf gyda'i gilydd fwy na 50% o gyfran o’r farchnad? | Nac oes |
| **C4**: A fyddai costau'r rheoliadau'n effeithio llawer mwy ar rai cwmnïau nag ar rai eraill? | Na fyddent |

| Prawf hidlo’r gystadleuaeth | |
|---|---|
| **Cwestiwn** | **Ateb** |
| **C5**: A yw’r rheoliadau yn debygol o effeithio ar strwythur y farchnad, gan newid nifer neu faint busnesau/sefydliad? | Nac ydyn |
| **C6**: A fyddai'r rheoliadau'n arwain at gostau sefydlu uwch i ddarpar gyflenwyr neu gyflenwyr newydd, nad oes rhaid i gyflenwyr presennol eu talu? | Na fyddent |
| **C7**: A fyddai'r rheoliadau'n arwain at gostau rheolaidd uwch i ddarpar gyflenwyr neu gyflenwyr newydd, nad oes rhaid i gyflenwyr presennol eu talu? | Na fyddent |
| **C8**: A yw newid technolegol cyflym yn un o nodweddion y sector? | Nac ydy |
| **C9**: A fyddai'r rheoliadau'n cyfyngu ar allu cyflenwyr i ddewis pris, ansawdd, ystod neu leoliad eu cynhyrchion? | Na fyddent |

## 9. Adolygu ôl-weithredol

9.1 Bydd adolygiad ôl-weithredol o'r Ddeddf yn cael ei gynnal bum mlynedd ar ôl iddo ddod i rym fan bellaf; sef erbyn 2028. Disgwylir i'r adolygiad asesu effeithiolrwydd y polisi wrth gyflawni ei amcanion i gefnogi gweithredu i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd a'r argyfwng natur, gan leihau sbwriela cynhyrchion plastig untro, lleihau defnyddio adnoddau mewn ffordd wastraffus ac addasu ymddygiad cwsmeriaid i ddefnyddio opsiynau amgen mwy cynaliadwy.

9.2 Bydd effaith y Rheoliadau hyn yn cael eu cynnwys yn yr adolygiad o'r Ddeddf.